

## Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf

### Cynllun Gweithredu Cwm Taf ar Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol Dirybudd gan AGIC ar 26 a 27 Mawrth 2012

#### Cynllun Gwella AGIC

Y rhannau yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r arolygiad hwn oedd Ward 3, yn arbenigo mewn Trawma ac Orthopaedeg a Ward 19, sy'n arbenigo mewn Meddygaeth Anadlol. Mae'r ddwy ward yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Er bod y meysydd a nodwyd fel rhai i'w gwella yn cyfeirio'n benodol at y wardiau uchod, edrychir arnynt hefyd yn yr holl wardiau clinigol er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a chamau cywiro yn cael eu cymryd ledled y Bwrdd Iechyd.

<b>Maes i'w Wella</b>	<b>Cam Gweithredu Cwm Taf</b>	<b>Swyddog Arweiniol Cyfrifol</b>	<b>Dyddiad Monitro a Chwblhau</b>	<b>Ymateb</b>
<b><u>Amgylchedd y Ward</u></b>				
Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r trefniadau storio i sicrhau bod eiddo'r cleifion a chyflenwadau'r ward yn cael eu cadw'n briodol.	<p>Atgoffir holl reolwyr y wardiau i adolygu'r holl drefniadau storio yn eu meysydd cyfrifoldeb hwy.</p> <p>Pan fo cyfyngiadau oherwydd yr amgylchedd – hysbysir y Penaethiaid Nyrsio am hyn er mwyn ystyried atebion eraill os yw'n bosibl neu cofnodir y broblem ar y gofrestr risg.</p> <p>Mae'n ofynnol i holl reolwyr y wardiau archwilio eu meysydd cyfrifoldeb i sicrhau bod eitemau'n cael eu cadw'n briodol.</p>	Rheolwr y Ward/Uwch Nyrs/Pennaeth Nyrsio.	14 Medi 2012 a pharhaus.	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod y trefniadau storio'n broblem barhaus yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg oherwydd cyfyngiadau'r adeilad.</p> <p>Er gwaethaf hyn, bydd yr Uwch Nyrsys yn monitro'r camau parhaus a nodwyd yn wythnosol.</p>

	<p>Bydd rhestrau'n cael eu datblygu i egluro pa eitemau y ceir eu cadw ym mha ran a chyfrifoldeb Rheolwr y Ward fydd y rhestrau hyn.</p> <p>Bydd Uwch Nyrsys yn edrych ar hyn bob wythnos.</p>			
<p>Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod llenni a ddefnyddir o amgylch gwelyau'r cleifion yn ddigon hir i gynnal preifatrwydd ac urddas.</p>	<p>Cynhelir archwiliadau urddas ar hap o leiaf unwaith y mis. Cynhelir yr archwiliadau ar y cyd gan Uwch Nyrsys ac aelodau o'r Tîm Hanfodion Gofal.</p> <p>Bydd Uwch Nyrsys yn dechrau croes wirio rhannau'r wardiau i ddibenion archwilio.</p> <p>Dylid tynnu llenni anfoddhaol i lawr a hysbysu'r adran cadw tŷ ar unwaith er mwyn gosod rhai newydd.</p> <p>Dylai bob ward gadw cyflenwad bach o lenni tafladwy i'w defnyddio mewn argyfwng.</p>	<p>Uwch Nyrs / Rheolwr y Ward.</p>	<p>31 Awst 2012.</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod yr archwiliadau urddas parhaus yn dangos yr arfer da sydd wedi ei sefydlu ledled y Bwrdd lechyd.</p> <p>Mewn sawl man, cyflwynir canlyniadau'r archwiliadau wrth fynedfa pob ward. Anogir yr arfer hwn ledled y Bwrdd lechyd.</p> <p>Y cwestiwn yn yr archwiliad sy'n nodi'r maes hwn:</p> <p><i>C 3. Mae'r staff yn sicrhau bod y llenni ar gau yn llwyr o amgylch y gwely a bod hyd y llenni'n cynnal urddas.</i></p> <p>(Gweler yr archwiliad sydd wedi ei atodi)</p>

<p>Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl staff yn sefydlu mesurau i hysbysu pobl eraill bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu y tu ôl i lenni sydd wedi eu cau.</p>	<p>Bydd Rheolwyr y Wardiau yn cadarnhau i'w Huwch Nyrsys bod ganddynt gyflenwad digonol o arwyddion "gofal ar waith".</p> <p>Bydd "gofal ar waith peidiwch â tharfu" wedi ei argraffu ar yr holl lenni newydd.</p>	<p>Uwch Nyrs / Rheolwr y Ward.</p>	<p>31 Awst 2012.</p>	<p>Mae arwyddion Gofal ar Waith wedi eu sefydlu a rhaid eu defnyddio ar bob ward.</p> <p>Cynhelir archwiliadau urddas ar hap. Y cwestiwn sy'n ymdrin â'r mater hwn:</p> <p><i>C 4. Mae'r staff yn arddangos arwyddion Gofal ar Waith" pan fyddant yn darparu gofal i gleifion.</i></p>
<p>Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y clo sydd wedi torri ar ddrws y tŷ bach ar Ward 3 yn cael ei atgyweirio.</p>	<p>Rhaid i Reolwyr y Wardiau sicrhau bod pob clo yn gweithio a rhaid iddynt hysbysu'r adran ystadau am unrhyw broblemau'n brydlon.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Ar unwaith.</p>	<p>Archwiliwyd Ward 3 yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ar unwaith ar ôl yr arolygiad ac nid oedd unrhyw gloeon wedi torri ar ddrwsau'r tai bach.</p>
<p><b><u>Agwedd ac ymddygiad y staff a'u gallu i ddarparu gofal ag urddas</u></b></p>				
<p>Dylai'r Bwrdd lechyd ddarparu sicrwydd bod y lefelau staffio ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy yn ddigonol i fodloni anghenion y cleifion.</p>	<p>Rheolwr y Ward sy'n gyfrifol am asesu anghenion y cleifion a'r lefelau staffio o sifft i sifft. Mae proses eglur wedi ei sefydlu, os oes angen nyrsys ychwanegol oherwydd salwch neu ddwystr anghenion y cleifion, i Reolwyr y Wardiau gynnal Aseiad Risg ac yna gofyn am fwy o gefnogaeth ar gyfer yr ardal glinigol honno.</p> <p>Mae'r Uwch Nyrsys yn monitro hyn yn ddyddiol.</p>	<p>Rheolwr y Ward/ Uwch Nyrsys.</p>	<p>29 Tachwedd 2012.</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi cynnal adolygiad o lefelau staffio'r nyrsys yn ddiweddar ac mae cynllun wedi ei sefydlu i sicrhau bod cymhareb staffio o 1:1.2. ym mhob ward.</p> <p>Hefyd, dechreuwyd ar y broses o gyflwyno rhestrau staffio electronig, a fydd yn cynorthwyo Rheolwyr y Wardiau i ddatblygu rhestrau staffio misol gyda'r nifer gywir o staff a chymysgedd sgiliau. Bydd y broses honno'n barhaus.</p>

<p>Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod addewidion urddas yn cael eu defnyddio ym mhob rhan. Nodwyd eu bod yn cael eu defnyddio ar Ward 3.</p>	<p>Dylid arddangos yr addewid urddas wrth fynedfa pob ward ac ardal glinigol. Mae wedi ei gynnwys hefyd yn y pecyn dogfennau nyrsio safonol</p> <p>Bydd yr Uwch Nyrsys yn archwilio hyn.</p>	<p>Uwch Nyrsys.</p>	<p>31 Awst 2012.</p>	<p>Cynhelir archwiliadau urddas ar hap yn fisol. Mae hwn yn cynnwys archwilio'r defnydd o'r Addewid Urddas.</p>
<p><b><u>Rheoli cleifion â dementia</u></b></p>				
<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried defnyddio mentrau megis "Dyma fi" a'r symbol blodyn glas ledled y Bwrdd Iechyd a sicrhau bod yr holl staff yn deall ystyr mentrau o'r fath.</p>	<p>Mae cynllun gweithredu wedi ei drefnu ar gyfer y symbol a'r daflen ledled y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Cefnogir hyn gan ymgyrch ymwybyddiaeth ac addysg ar gyfer nyrsys a Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol.</p>	<p>Uwch Nyrsys.</p>	<p>30 Tachwedd 2012.</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno amlygu nifer o feysydd o arfer da ac arfer sy'n datblygu o ran y gofal i gleifion â dementia:</p> <p>Defnyddir y symbol blodyn glas a'r daflen "Dyma Fi" eisoes ar nifer o wardiau.</p> <p>Mae'r daflen wedi ei haddasu ar gyfer anghenion cleifion ar ward gyffredinol ac yn ddiweddar enillodd wobr Iaith Gymraeg i gydnabod y gwaith a wnaed gyda grwpiau blaenoriaeth ym maes iechyd meddwl pobl hŷn.</p> <p>Y rhaglen sylfaen i raddedigion a ddangoswyd mewn digwyddiad i Brif Swyddogion Nyrsio yng Nghymru ar ddiwedd 2011. Mae hon wedi arwain at ddarn o waith ar ran y Prif Swyddog Nyrsio sy'n edrych ar sut y gallwn ddarparu rhaglen sgiliau/addysg ar</p>

				gyfer Nyrsys Cofrestredig a hefyd ar gyrsiau israddedigion er mwyn i nyrsys ennill hyder, sgiliau a chymhwysedd i weithio mewn lleoliadau clinigol gwahanol. Mae'r rhaglen yn galluogi nyrsys i ddarparu gofal ar gontinwmm neu lwybr a allai gynnwys lleoliadau ysbyty a chartref, a lleoliadau iechyd meddwl neu ofal iechyd cyffredinol.
Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod Nyrsys Dementia Arbenigol yn cyfrannu'n rheolaidd at y gwaith o gynllunio gofal ar gyfer cleifion â dementia ar y wardiau.	Bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno'r defnydd o Lwybrau Gofal Dementia ar ôl cwblhau'r cynllun treialu, gyda sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth ar gyfer nyrsys a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill.  Atgoffir holl reolwyr y wardiau cyffredinol am y gwasanaeth cefnogi sydd ar gael gan y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl i sicrhau bod anghenion gofal y cleifion yn cael eu bodloni.	Uwch Nyrsys.	Bydd y cynllun treialu'n cynnwys 100 o gleifion, felly disgwylir canlyniad a gwerthusiad y cynllun treialu erbyn diwedd mis Hydref 2012.	Lansiwyd y llwybr gofal dementia i'w ddefnyddio ar wardiau cyffredinol ar 24 Gorffennaf 2012. Dewiswyd pedair ward i dreialu'r llwybr gofal.  Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Nyrsys Dementia Arbenigol ar hyn o bryd ac mae hon yn broblem o ran adnoddau. Fodd bynnag, yn ogystal â'r gwaith parhaus sy'n cael ei dreialu yn y wardiau a ddewiswyd, mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl yn darparu gwasanaeth cefnogi ynglŷn â dementia i feysydd iechyd cyffredinol drwy atgyfeiriadau unigol a thrwy roi cyngor arbenigol pan ofynnir amdano.  Yn strategol, mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried cyflwyno llenyddiaeth i staff gofal iechyd er mwyn darparu canllawiau syml ond effeithiol ynglŷn â chyfathrebu gyda pherson hŷn sydd wedi drysu ac ymdrin ag ymddygiad heriol. Gellir defnyddio'r rhain fel sail i hyfforddiant a hyfforddiant sefydlu ychwanegol. Mae gwaith yn parhau ar Adolygiad Strategol Pobl Hŷn a fydd

				yn edrych ar sawl agwedd ar wella ansawdd gofal i bobl â dementia mewn unrhyw leoliad ym Mwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.
<b><u>Cynllunio a Darparu Gofal</u></b>				
<p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod anghenion y cleifion a nodir mewn asesiadau cleifion wedi eu cysylltu â chynllun gofal y cleifion.</p> <p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y darperir gofal a thriniaeth i gleifion yn unol â'u hasesiadau.</p> <p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan bob claf mewnol gynlluniau gofal sydd wedi eu haddasu ar gyfer anghenion penodol a bod y cynlluniau gofal hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.</p>	<p>Cyfrifoldeb rheolwr y ward yw sicrhau bod holl broses y dogfennau yn cael ei gwirio yn ystod pob sifft.</p> <p>Archwilir hyn yn fwy ffurfiol yn flynyddol ond disgwylir i reolwr y ward ymdrin â phroblemau yn ddi-oed.</p> <p>Disgwylir i'r holl Uwch Nyrsys drafod hyn yn eu cyfarfodydd gyda rheolwr y ward a chofnodi bod y cam hwn wedi ei gymryd.</p>	Penaethiaid Nyrsio/Uwch Nyrs.	Ar unwaith ac yn barhaus.	<p>Mae gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Dogfennau Nyrsio sydd wedi ei hen sefydlu gyda'r nod o sicrhau bod y dogfennau nyrsio'n gadarn ac yn addas ar gyfer eu diben. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu swyddogaeth a gweithgaredd y grŵp hwn yn ddiweddar gan ystyried y gwersi a ddysgwyd drwy'r broses bryderon, mentrau arfer gorau a phrosesau hysbysu am ddigwyddiadau clinigol.</p> <p>Prif bwyslais y grŵp yw sicrhau bod cynllun gofal y cleifion yn adlewyrchu anghenion penodol y claf yn briodol ac yr adolygir y rhain yn rheolaidd i sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn cael eu cofnodi wrth iddynt newid.</p> <p>Bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn treialu'r defnydd o un cofnod claf ar wardiau aciwt a chymunedol gyda'r nod o leihau'r gwaith papur ar gyfer staff clinigol. Drwy ein proses gwersi a ddysgwyd, credwn ei bod yn bosibl gwella'r broses gadw cofnodion a chynllunio gofal ar gyfer ein cleifion drwy ddefnyddio un set o gofnodion amlddisgyblaethol.</p>

				Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r Bwrdd lechyd yn gyfranogwr gweithredol ar Grŵp Llywio Dogfennau Nyrsio Cymru Gyfan, a gwnaed gwaith meincnodi diweddar o'i gymharu â'r gyfres ddata gofynnol, a ddatblygwyd gan y grŵp. Roedd y canlyniadau'n gadarnhaol, a dim ond mân addasiadau a oedd yn ofynnol.
Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl ofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion yn cael ei gofnodi, yn nodiadau'r cleifion ar unwaith, fel rhan o'r drefn arferol, gan gynnwys gweithdrefnau therapiwtig.	<p>Atgoffir Rheolwyr y Wardiau i gynnal archwiliadau ar hap rheolaidd yn ystod sifft, i sicrhau bod yr holl ddogfennau am ofal y claf wedi eu llenwi'n briodol ac yn union ar ôl darparu'r gofal neu'r driniaeth.</p> <p>Bydd yn ofynnol ymdrin ag unrhyw broblemau ar unwaith.</p> <p>Mae hyn yn berthnasol hefyd i Weithwyr Gofal lechyd Proffesiynol eraill sy'n cymryd rhan yn y gofal e.e. ffisiotherapyddion a bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei rannu gyda hwy.</p>	Penaethiaid Nyrsio/Uwch Nyrs.	Ar unwaith ac yn barhaus.	Mae nifer o offerynnau asesu sy'n ffurfio rhan o'r dogfennau nyrsio i gleifion. Polisi'r Bwrdd lechyd yw bod yr holl ddogfennau'n cael eu llenwi yn union ar ôl darparu'r gofal neu'r driniaeth.
Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gan y staff nyrsio wybodaeth am y cleifion y maent yn darparu gofal iddynt.	<p>Atgoffir holl Reolwyr y Ward bod angen sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o anghenion gofal eu cleifion ar bob sifft.</p> <p>Archwilir hwn fel rhan o'r "archwiliadau ar hap" dyddiol gan Uwch Nyrsys.</p>	Rheolwr y Ward	Ar unwaith ac yn barhaus.	<p>Ceir sesiwn trosglwyddo cleifion ar ddechrau pob sifft, gan ddefnyddio bwrdd statws y claf.</p> <p>Mae'r wybodaeth hon yn cael ei diweddarau fel bo'r angen drwy gydol y dydd ar ôl rowndiau ward ac ati.</p>

Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod digon o resymau dros adael claf yn ei wely a bod y wybodaeth hon wedi ei chofnodi yn nodiadau'r cleifion.	Dylid adlewyrchu hyn yng nghynllun gofal y claf a'i gyfathrebu yn ystod y sesiwn drosglwyddo.  Cyfrifoldeb yr holl nyrsys cofrestredig a Rheolwr y Ward yw sicrhau bod hyn yn digwydd.	Rheolwr y Ward	Ar unwaith ac yn barhaus.	Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod mai hon yw'r safon ddisgwyliedig.
<b><u>Rheoli Cofnodion</u></b>				
Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl ffurflenni sy'n nodi na ddylid ceisio dadebru'r claf yn cael eu cadw'n gyfredol ac os yw claf yn newid ei feddwl, mae angen adlewyrchu hyn yn y dogfennau ar unwaith.	Gofynnir i'r holl Gyfarwyddwyr Clinigol gyfathrebu gyda'u timau i sicrhau bod y ffurflenni'n cael eu cadw'n gyfredol.  Gofynnir i Gyfarwyddwyr Clinigol sicrhau y cyflwynir canlyniadau archwiliadau o'r arfer hwn o leiaf unwaith y flwyddyn mewn cyfarfodydd archwilio clinigol.	Cyfarwyddwyr Clinigol.	Medi 2012.	Mae Pwyllgor Dadebru'r Bwrdd lechyd yn monitro ac yn archwilio'n fisol y defnydd o'r ffurflenni sy'n nodi na ddylid ceisio dadebru'r claf.
<b><u>Hylif a Maeth</u></b>				
Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn cyflenwad rheolaidd o ddŵr trwy gydol y dydd a bod y dŵr hwn yn cael ei newid yn aml.	Mae jygiau dŵr y cleifion yn cael eu newid 3 gwaith y dydd; cyfrifoldeb y nyrs yw sicrhau bod hyn yn digwydd.	Rheolwr y Ward	Ar unwaith ac yn barhaus.	Mae'r Bwrdd lechyd yn cydymffurfio â Safonau Maeth ac Arlwygo Cymru Gyfan ar gyfer Bwyd a Diod i Gleifion Preswyl Mewn Ysbytai.



Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod meini prawf eglur ar gyfer gosod cleifion ar siart cydbwysedd hylif a bod y siartiau'n cael eu llenwi'n brydlon.	Defnyddir siartiau cydbwysedd hylif dyddiol ac wythnosol Cymru Gyfan ym mhob ward, ac ategir y rhain gan boster sy'n rhoi canllawiau ar gydbwysedd hylif.  Dylai pob ward sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael a hysbysu'r Uwch Nyrs.	Rheolwr y Ward.	31 Awst 2012.	Hon yw'r safon a ddisgwylir gan y Bwrdd lechyd.
Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod pob claf yn cael cyfle i olchi ei ddwylo cyn bwyta pryd bwyd.	Atgoffir holl Reolwyr y Wardiau mai hon yw'r safon a ddisgwylir.  Bydd archwiliad amser pryd bwyd wedi ei ddiogelu ac archwiliad Hanfodion Gofal yn parhau i fonitro'r arfer hwn.	Rheolwr y Ward	Ar unwaith ac yn barhaus.	Mae gweithdrefn y Bwrdd lechyd ar gyfer amser pryd bwyd wedi ei ddiogelu yn cyfarwyddo staff i sicrhau bod cleifion yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn pryd bwyd.  Archwiliadau urddas ar hap i'w cynnal o leiaf unwaith y mis.  <i>C 12. Mae'r staff yn sicrhau bod cleifion yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta eu pryd bwyd.</i>
<b><u>Hylendid a Gofal Personol</u></b>				
Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl ofal a'r driniaeth hylendid personol a ddarperir i gleifion gan y staff yn cael ei gofnodi.	Mae gofyniad i Brif Nyrsys y ward/Nyrs â gofal gynnal archwiliadau ar hap ar y dogfennau i sicrhau bod ffurflen monitro hylendid personol wedi ei sefydlu a'i bod yn gyfredol.	Rheolwr y Ward.	Parhaus.	

<b><u>Anghenion tŷ bach</u></b>				
<p>Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod nifer briodol o gomodau ar gael ar gyfer y cleifion ar wardiau.</p>	<p>Mae'n ofynnol i Reolwyr y Wardiau gyfrif faint o gomodau sydd ar gael ganddynt a hysbysu'r Pennaeth Nyrsio am unrhyw ddiffyg.</p> <p>Rhaid cyflwyno cynllun wedyn ar gyfer cael comodau newydd.</p>	<p>Rheolwr y Ward.</p>	<p>31 Awst 2012.</p>	
<p>Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod amrywiaeth o bediau anymataliaeth ar gael i fodloni anghenion gwahanol y cleifion.</p>	<p>Bydd yn ofynnol i Uwch Nyrsys archwilio pob rhan y maent yn gyfrifol amdani i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r broses hon, a threfnu hyfforddiant i ddiweddarau sgiliau os yw'n ofynnol.</p>	<p>Uwch Nyrsys.</p>	<p>29 Medi 2012.</p>	<p>Mae gan y Bwrdd lechyd amrywiaeth o gynhyrchion ar gael yn y contract presennol; ond gallai fod yn anodd cadw'r holl amrywiol eitemau ar bob ward. Mae'r cwmni'n danfon rhai cynhyrchion penodol i'r wardiau bob mis o'r amrywiaeth o wahanol fathau sydd ar gael.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd yn cytuno ei bod yn hanfodol cynnal asesiad anymataliaeth er mwyn sicrhau y rheolir anymataliaeth yn briodol. Bydd hyn yn nodi'r rheswm dros yr anymataliaeth, a'r modd gorau o ymdrin ag anghenion unigol cleifion. Dylai'r asesiad gynnwys ymchwiliadau megis dadansoddiad wrin, dyddiaduron ysgarthu, dyddiaduron y bledren, archwiliadau o'r abdomen ac ati.</p> <p>Nid padiau fydd yr unig ddull a nodir o reoli anymataliaeth o anghenraid, a gellid hefyd defnyddio trefn briodol ar gyfer mynd i'r tŷ bach, neu</p>

				gymhorthion anymataliaeth eraill e.e. gweiniau 'Conveen'.
<b><u>Seinyddion</u></b>				
Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod seinydd sy'n gweithio'n iawn ar gael i'r holl gleifion bob amser.	Atgoffir Rheolwr y Wardiau bod angen cynnal archwiliadau bob dydd.			Archwiliwyd yr holl seinyddion ar unwaith ar ôl yr arolygiad ac roedd pob un yn gweithio.  Eto mae'r Bwrdd lechyd yn sicrhau y cynhelir archwiliadau urddas ar hap o leiaf unwaith y mis, sy'n cynnwys y pwynt hwn.  <i>C 17. Roedd cloch alw'r cleifion o fewn eu cyrraedd.</i>
Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau mai nod y staff yw ateb seinyddion/clychau galw o fewn pum munud gan roi esboniad i gleifion a thawelu eu meddyliau pan nad ydynt yn gallu gwneud hynny gan eu bod yn brysur.	Atgoffir Rheolwyr y Wardiau mai hwn yw'r arfer a ddisgwylir.  Bydd hyn yn cael eu monitro yn ystod ymweliadau dyddiol gan Uwch Nyrsys.			Mae'n ofynnol mewn Archwiliad Hanfodion Gofal bod clychau galw'n cael eu hateb o fewn 5 munud.  Mae rowndiau gofal cleifion wedi eu treialu ar ddwy ward trawsnewid gofal a bydd yn cael ei weithredu ar wardiau treialu gofal dementia.  Rhennir y canlyniadau ar ôl cwblhau'r cynllun treialu, gyda chynllun i gyflwyno'r drefn yn ehangach.
<b><u>Rheoli Meddyginiaeth a Phoen</u></b>				
Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cleifion yn derbyn meddyginiaeth lleddfdu poen yn brydlon.  Rhaid i'r Bwrdd	Mae'r Tîm Nyrsio sy'n Arbenigo mewn Poen wedi cynnal archwiliad yn ddiweddar yn y Gyfarwyddiaeth Lawdriniaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, bod angen mwy o ymwybyddiaeth ynglŷn â'r defnydd o'r offeryn asesu poen.	Penaethiaid Nyrsio.	31 Ionawr 2013.	Mae'r archwiliad hanfodion gofal yn sicrhau gyda nyrsys a chleifion bod meddyginiaeth lleddfdu poen yn cael ei rhoi yn brydlon.  Hefyd, mae offeryn asesu poen yn rhan o siart arsylwi NEWS Cymru Gyfan sy'n pwysleisio'r arfer hwn.

lechyd sicrhau, ar ôl nodi bod claf mewn poen, y cynhelir asesiad poen ar unwaith ac y sefydlir cynllun gweithredu sy'n cael ei adolygu a'i werthuso.	<p>Mae rhagor o hyfforddiant wedi ei gynnal ar lefel y wardiau a bydd yr archwiliad yn cael ei ailadrodd mewn 6 mis.</p> <p>Mae angen cynnal yr archwiliad hwn yn y meysydd clinigol drwy'r Bwrdd lechyd.</p>			
Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau nad oes meddyginiaeth yn cael ei gadael heb oruchwyliaeth wrth ymyl gwely'r cleifion.	<p>Mae'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth a Llawdriniaeth wedi cylchredeg rhybudd clinigol yn ddiweddar i bob ward i atgoffa'r staff am hyn.</p> <p>Mae Rheolwyr y Wardiau ac Uwch Nyrsys i gynnal archwiliadau ar hap ynglŷn â hyn bob dydd.</p>	Rheolwyr y Wardiau ac Uwch Nyrsys.	Ar unwaith ac yn barhaus.	Mae'r Bwrdd lechyd yn cytuno nad yw'r arfer hwn yn dderbyniol a bydd yr Uwch Nyrsys yn ei fonitro'n ofalus.
Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl gypyrddau cyffuriau wedi eu cloi'n ddiogel.	<p>Anfonir nodyn at holl Reolwyr y Wardiau i'w hatgoffa am eu cyfrifoldebau i gydymffurfio â'r weithdrefn.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r Uwch Nyrsys gynnal archwiliadau ar hap ynglŷn â'r arfer hwn pan fyddant yn ymweld â'r wardiau a rhaid ymdrin ag unrhyw broblemau ar unwaith gyda Rheolwr y Ward/Nyrs â Gofal.</p>	Rheolwyr y Wardiau.	Ar unwaith ac yn barhaus.	Mae gan y Bwrdd lechyd Bolisi ynglŷn â Storio Meddyginiaeth mewn Ysbyty.
<b><u>Cynllunio ar gyfer Rhyddhau Cleifion</u></b>				
Dylai'r Bwrdd lechyd ddarparu gwybodaeth i ni ynglŷn ag achosion o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal	Parheir i hysbysu'r Uwch Nyrs am bob achos o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal i sicrhau y cymerir pob cam priodol.	Uwch Nyrsys.	Ar unwaith ac yn barhaus.	Mae gan Ward 3 yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ddau achos o oedi wrth drosglwyddo gofal ar y ward ar hyn o bryd. Mae'r ddau glaf yn aros am wely mewn ysbyty cymunedol i dreulio mwy o amser yn adfer.

<p>ar Ward 3 a chynnwys unrhyw gynlluniau i leihau'r rhain.</p>				<p>Mae ein hachosion o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal yn cael eu monitro'n barhaus ac mae proses ar gael ar gyfer hysbysu staff uwch amdanynt.</p> <p>Mae'r grŵp llif cleifion yn casglu'r wybodaeth ac yn monitro hyn.</p>
<p>Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gan yr holl gleifion ddyddiad wedi ei amcangyfrif ar gyfer eu rhyddhau, pan gânt eu derbyn i'r ward, a bod eu perthnasau'n cael eu cynnwys a'u hysbysu'n llawn yn y broses o gynllunio eu rhyddhau pan fo hynny'n briodol.</p>	<p>Bydd yr holl staff nyrsio cofrestredig yn cael eu hatgoffa bod angen cynnwys aelodau o'r teulu/gofalwyr, o adeg derbyn y claf, ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer ei ryddhau.</p> <p>Mae'n ofynnol bod gan yr holl wardiau broses ar gyfer monitro'r dyddiad y rhagwelir y bydd y claf yn cael ei ryddhau.</p> <p>Mae hwn yn cael ei fonitro ar y lefel uchaf drwy'r Grŵp Llywio Gofal Heb ei Drefnu a'r Rhaglen Gwella Llif Cleifion.</p>	<p>Rheolwyr y wardiau/ Uwch Nyrsys.</p>	<p>Parhaus.</p>	<p>Mae gwella llif cleifion yn y Bwrdd lechyd wedi bod yn bwyslais i'r Grŵp Llywio Gofal Heb ei Drefnu a'r Rhaglen Gwella Llif Cleifion. Mae'r gwaith a gyfarwyddir gan y rhaglenni hyn wedi edrych ar lwybr cyfan y cleifion, ym maes gofal wedi ei drefnu a gofal heb ei drefnu, ac wedi gwneud gwelliant systematig i'r gwasanaeth.</p> <p>Un maes penodol y canolbwyntiwyd arno oedd gwella'r broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion drwy ddefnyddio Pecyn Cymorth Cynllunio ar gyfer Rhyddhau, gweithredu'r Dyddiad y Rhagwelir y bydd y claf yn cael ei Ryddhau a gweithio'n agos gyda'r ddau Awdurdod Lleol i ddatblygu gwasanaethau newydd. O ganlyniad i ddatblygu Un Pwynt Cyswllt gyda'r Awdurdodau Lleol fel pwynt i atgyfeirio cleifion ag anghenion rhyddhau llai cymhleth, cafodd cleifion eu rhyddhau'n gynt pan oedd hynny wedi ei drefnu gyda'r gefnogaeth ail-alluogi gofynnol wedi ei sefydlu. Cynrychiolir y ddau Awdurdod Lleol yn y Grŵp Llywio Gofal heb ei</p>

				Drefnu. Mae'r berthynas waith agos hon wedi annog y staff i hysbysu staff uwch a datrys unrhyw achosion o oedi wrth ryddhau. O ganlyniad, mae nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi gostwng o 5109 o ddiwrnodau mewn gwely ym mis Mai 2011 i 1947 o ddiwrnodau mewn gwely ym mis Mehefin 2012.
<b><u>Gweithgareddau</u></b>				
Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried ffyrdd o ddarparu gweithgareddau ac ysgogiad i'r cleifion trwy gydol eu cyfnod yn yr ysbyty.	Mae'r gwasanaeth Caplaniaeth yn ehangu'r gwasanaeth gwirfoddol i ganolbwyntio ar weithgareddau ac ysgogiad i gleifion. Bydd hyn yn cael ei adolygu fel rhan o'r cynllun treialu gofal dementia.	Uwch Nyrs – Hanfodion Gofal.	Recriwtio gwirfoddolwr yr yn barhaus.	Mae gan y Bwrdd lechyd 24 gwirfoddolwr ar hyn o bryd.